

Dr JJ de Gorter
Ysbyty Spire Caerdydd
Heol Croescadarn
Pentwyn
Caerdydd
CF23 8XL

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

8 Awst 2014

Annwyl Dr de Gorter,

Par: Ymweliad lle rhoddwyd rhybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag Ysbyty Spire Caerdydd ar 19 Gorffennaf 2014

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad lle rhoddwyd rhybudd ag Ysbyty Spire Caerdydd ar 19 Gorffennaf 2014. Roedd trywydd gofal iechyd plant a'u teuluoedd o'r adeg pan gânt eu derbyn i'r adeg pan gânt eu rhyddhau yn rhan o'r arolygiad. Mae AGIC yn cydnabod ac yn diolch i'r cleifion ac i aelodau o'u teuluoedd am eu cydsyniad ac am gymryd rhan yn yr arolygiad hwn. Nodir hefyd y gwaith a wnaed gan yr uwch-dîm rheoli yn Ysbyty Spire Caerdydd o ran cydlynu'r holl drefniadau angenrheidiol fel y gellid cynnal yr arolygiad cynhwysfawr ac arbenigol hwn.

Trosolwg o'r Lleoliad Gofal Iechyd

Lleolir Ysbyty Spire Caerdydd ar gyrion Caerdydd a gellir ei gyrraedd ar gludiant cyhoeddus ac mewn car, gyda digonedd o lefydd parcio. Mae mynediad digonol i'r anabl hefyd. Adeilad dau lawr modern yw'r ysbyty, gan gynnwys derbynfa gysurus, ystafelloedd preifat ar gyfer ymgyngori a thriniaeth, ystafelloedd radiolog, theatrau ac ystafelloedd adfer ac adran arlwygo a swyddfeydd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelwyd bod yr ysbyty wedi'i addurno'n ddel ac roedd yn ymddangos yn lân.

Mae lle ar gyfer chwe deg chwech o gleifion mewnol yn y wardiau. Mae'r holl ystafelloedd preifat ar gyfer un claf ac maent i gyd yn cynnwys cyfleusterau en-suite, teledu, ffôn a systemau i alw'r nyrsys.

Mae gan yr ysbyty gyfarpar da ac mae wedi datblygu'r ystafelloedd endosgopi yn ddiweddar a chyflwyno labordy cathetr y galon. Datblygwyd y ddau gyfleuster hyn ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf o arferion gorau.

Roedd gan yr ysbyty adran ffisiotherapi â chyfarpar da oedd yn derbyn cleifion trwy amrywiol lwybrau atgyfeirio gan gynnwys meddygon teulu, lleoliadau cleifion mewnol a hunan-atgyfeiriadau.

Mae gwasanaethau cleifion allanol ar gael i oedolion a phlant o bob oed. Mae'r ysbyty yn cynnig triniaeth a llawdriniaeth i oedolion a phlant o fewn amodau ei gofrestrriad. Ceir mynediad i'r ysbyty ar gyfer triniaeth ar ôl atgyfeiriad gan feddygon teulu.

Mae'r adran arlwygo yn cynnig bwydlen eang ac amrywiol ac yn darparu ar gyfer gofynion deietegol, ethnig a chrefyddol unigol. Mae'r adran wedi cael sgôr o bump ar gyfer hylendid bwyd. Mae cleifion a'u teuluoedd yn mynegi lefelau uchel iawn o foddhad gyda'r ddarpariaeth arlwygo yn yr ysbyty.

Ansawdd Triniaeth a Gofal

Roedd datganiad o ddiben a chanllawiau i gleifion ar gael ymhob ystafell breifat ac roedd amrywiaeth o wybodaeth i gleifion ar gael oedd yn addas ar gyfer eu hoed. Roedd rhesel taflenni / gwybodaeth ar gael yn y dderbynfa, gydag amrywiaeth o wybodaeth gyffredinol am yr ysbyty, gan ddisgrifio triniaethau a chyfarwyddiadau ôl-driniaeth. Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael pan fo angen.

Caiff safbwyntiau cleifion eu hystyried trwy ddefnyddio arolwg boddhad ac mae staff yr adrannau a'r tîm rheoli yn adolygu'r canlyniadau a'u trafod mewn pwyllgorau llywodraethu clinigol. Roedd arolwg yn cael ei wneud yn flynyddol drwy gyfrwng holiadur cleifion ac ynddo roedd adborth cleifion i'w weld. Adolygir y sylwadau a gwneir newidiadau i ymarfer os oes angen. Mae canlyniadau arolygon boddhad cleifion ar gael ar y rhyngwyd.

Cafodd AGIC gyfle i siarad â chleifion yn ystod yr arolygiad. Mynegwyd lefelau uchel o foddhad gyda phob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir.

Roedd ystod gynhwysfawr o bolisiau corfforaethol a lleol ar gael a oedd yn adlewyrchu gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion. Cafodd ansawdd y cofnodion a gedwir ar gyfer cleifion mewnol ac allanol ei fonitro a chanfuwyd eu bod yn cael eu cynnal a'u storio'n ddigonol a bod adroddiadau cyfredol i'w cael ar ofal cleifion.

Cafodd pob claf ymgynghoriad preifat â'r ymgynghorydd a enwyd ar ei gyfer cyn ei dderbyn, gan fynychu clinig cyn-derbyn. Cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer pob triniaeth. Mae llwybrau gofal ar gael ar gyfer llawdriniaethau unigol. Anogir cleifion i fod â rhan wrth benderfynu ar y gofal a'r driniaeth a ddarperir.

Urddas a Phreifatwydd Cleifion

Trwy gydol yr arolygiad gwelwyd cleifion yn cael eu trin â pharch mawr ac roedd pob agwedd ar breifatrwydd ac urddas yn rhan annatod o ethos cyffredinol yr ysbyty.

Barn Cleifion

Roedd adborth y cleifion y siaradwyd â hwy yn gadarnhaol iawn am y staff a'r gofal a geir. Dywedodd y cleifion, ac aelodau o'u teuluoedd y siaradwyd â hwy, iddynt gael profiad cadarnhaol iawn cyn eu llawdriniaeth ac yn ystod eu harhosiad. Dywedasant fod ansawdd y gofal, gan gynnwys yr wybodaeth a'r gefnogaeth yr oeddent wedi'u derbyn ar ôl eu llawdriniaeth neu eu triniaeth a'r ôl-ofal, yn rhagorol. Dywedasant hefyd fod yr holl staff yn ofalus ohonynt a'u bod yn broffesiynol, gofalgar a chymwynasgar iawn.

Canmolodd y cleifion a'u teuluoedd ansawdd y bwyd, y dewis a sut y'i cyflwynir. Roedd bwydlenni'n cael eu darparu ymlaen llaw a'r bwyd yn cael ei osod ar blatiau unigol ar y wardiau, gyda phob cwrs yn cael ei weini ar wahân a'i gyflwyno'n dda.

Rheolaeth a Phersonél

Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau personél perthnasol wedi'u sefydlu. Edrychwyd ar sampl cynrychioliadol o gofnodion personél y staff. Mae penaethiaid adrannau yn cadw gwybodaeth am swydd-ddisgrifiadau, datblygiad proffesiynol parhaus, addysg a chofnodion hyfforddiant. Mae gwybodaeth bersonol, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofrestriadau proffesiynol a gwybodaeth am yswiriant atebolrwydd yn cael eu cadw'n ganolog. Ceir system i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau'n barhaus. Argymhellir y dylid datblygu mynegai fel ei bod yn glir lle mae gwahanol rannau o gofnodion y staff yn cael eu cadw er mwyn gallu cael hyd iddynt yn rhwydd os bydd angen. Mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty wedi hysbysu AGIC fod system personél newydd wedi dechrau ar 18 Awst 2014 ac y bydd yn cynnwys mynegai canolog.

Mae gwerthuso ac ail-ddilysu staff meddygol yn digwydd a chesglir adborth parhaus am ymgynghorwyr. Trafodir yr adborth yn y Pwyllgor Cynghori Meddygol a datblygir cynlluniau gweithredu os oes angen.

Roedd gan yr holl staff gymwysterau perthnasol ac roeddent wedi'u hyfforddi i gyflawni eu swyddogaethau. Ceir system i sicrhau bod yr holl staff cofrestredig yn dal ar y gofrestr broffesiynol briodol. Roedd yn ymddangos bod nifer y staff a chymysgedd eu sgiliau yn briodol ar gyfer nifer ac anghenion y cleifion mewnol ar adeg yr arolygiad. Roedd rhaglen gynefino gynhwysfawr ar gyfer staff newydd ac roedd rhaglen o addysg i sicrhau cymhwysedd gofal critigol a diweddariadau hyfforddiant gorfodol.

Ceir system glir ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Cyflenwir hyfforddiant gorfodol gan ddefnyddio system ar-lein ac mae hyfforddiant blynyddol y staff yn

gyfredol. Sicrheir bod yr holl staff yn ymwybodol o bolisiâu'r ysbyty ac roedd cofnodion yn dangos eu bod wedi eu darllen a chytuno i gydymffurfio â hwy. Roedd dogfennaeth y cofnodion hyfforddiant ac addysg yn dda ac roedd system wedi'i sefydlu i fonitro rheoli perfformiad. Cadarnhawyd hyn gan yr aelodau staff y siaradwyd â hwy ar ddiwrnod yr arolygiad.

Barn y Staff

Roedd tystiolaeth o arweiniad rheolaethol a chlinigol cryf, gan greu gwaith tîm effeithiol gyda phawb yn cydweithio'n dda. Roedd yr holl staff yn ymddangos yn hapus ac roeddent yn frwdfrydig am eu gwaith, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hollol ymroddedig i ddarparu safonau gofal uchel i'w grŵp o gleifion. Roedd tystiolaeth o wir ysbryd tîm a hwyliau da ymhlith aelodau'r tîm. Dywedodd nifer o'r staff eu bod yn hapus i weithio yn yr ysbyty a bod gwaith tîm yn elfen bwysig, yn ogystal â hyfforddiant ac ymrwymiad y sefydliad i ddatblygiad staff. Roeddent yn mwynhau gweithio yn yr ysbyty.

Llywodraethu Clinigol a Rheoli Risg

Roedd strategaeth Llywodraethu Clinigol o fewn grŵp Spire a gwelwyd bod y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith yn lleol gan gynnig strwythur clir. Gwelwyd bod polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr yn cyflawni'r gofynion statudol a nodwyd bod system gadarn o adolygu ac archwilio i'w gweld.

Caiff polisiâu a gweithdrefnau eu hadolygu o leiaf unwaith bob tair blynedd, yn unol â'r polisi corfforaethol. Roedd pob polisi gweithredol o eiddo Spire yn cael ei ddilysu'n gorfforaethol gan gyfarwyddiaethau perthnasol a chynghorwyr arbennig sy'n arbenigo mewn meysydd penodol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau a deddfwriaeth gyfredol.

Mae cydlynnydd yn arwain y gwaith o ymdrin â phob damwain, digwyddiad a chwyn ac fe wnaethom adolygu cofnodion y rhai oedd wedi digwydd dros y ddau fis diwethaf. Canfuom y deliwyd â phob un ar y lefel gyntaf. Anfonir gwybodaeth am gwynion, digwyddiadau a damweiniau at benaethiaid adran, uwch-dimau rheoli a phwyllgorau Llywodraethu Clinigol yn chwarterol. Mae'r ysbyty yn gweithredu ar sail y canlyniadau ac yn defnyddio'r wybodaeth i oleuo a/neu newid arferion.

Hysbysir aelodau unigol o staff am y pethau uchod trwy adroddiadau ar ddigwyddiadau, cyfarfodydd ward a gwerthusiadau. Ceir polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer staff sy'n datgelu pryderon. Mae adolygiadau perfformiad unigol yn rhoi cyfleoedd pellach i drafod pryderon. Roedd y gwaith papur ar gyfer cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac archwiliad clinigol yn llawn gwybodaeth ac yn ystyried y cyfarfodydd a'r gweithredoedd blaenorol. Ceir strategaeth glinigol a chorfforaethol gadarn, a weithredir trwy'r system cardiau sgôr sy'n monitro perfformiad, yn gosod targedi ac yn rhannu'r arferion gorau.

Gwelwyd bod ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth; roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys datblygu'r uned endosgopi a labordy cathetr y galon yn ddiweddar gan ddilyn yr arferion gorau. Mae cynllun hefyd i ennill achrediad cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau endosgopi.

Rhennir bwletinau diogelwch a chynghor â phob pennaeth adran a chaiff cynllun gweithredu i ddelio â'r rhain ei ddatblygu a'i rannu â phob aelod perthnasol o'r staff trwy e-byst, hysbysfyrddau a thrafodaeth mewn cyfarfodydd tîm.

Roedd cynllun archwilio blynyddol ar waith a byddai'r canlyniadau'n cael eu hadolygu; gwelsom fod cynlluniau gweithredu clir i wella gwasanaethau lle bo angen. Penaethiaid adrannau sy'n arwain archwiliadau lle bo modd ac mae'r canlyniadau'n cael eu rhannu â'r staff ar unwaith fel y gellir gwneud unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Roedd y trefniadau ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ac Amddiffyn Plant Agored i Niwed hefyd yn cael eu hadolygu ac roedd yn ymddangos bod systemau cadarn yn bodoli yn yr ysbyty o ran hyfforddi staff a chodi eu hymwybyddiaeth, monitro ac archwilio.

Rheoli Meddyginiaethau

Canfuwyd bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a chanllawiau arferion da. Adolygwyd llyfrau cyffuriau dan reolaeth a gwelwyd eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae'r system olrhain electronig yn galluogi pob symudiad stoc i gael ei wirio ddwywaith, ei fonitro a'i ddilyn i fyny. Mae hyn yn lleihau i'r eithaf y risg o wneud camgymeriadau. Mae'r sefydliad yn hyrwyddo ac yn annog 'diwylliant o beidio â bwrw bai' sy'n galluogi staff i ddysgu drwy gamgymeriadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

Cafodd taflenni presgripsiwn eu hadolygu a gwelwyd eu bod yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol. Roedd llyfryn hawdd ei ddefnyddio ar feddyginiaethau ar gael, a rhoddir hwn i bob claf wrth iddo gael ei ryddhau. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am feddyginiaeth y claf ac rydym yn cymeradwyo hyn fel arfer da.

Yr Eiddo, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau

Roedd yr elfen hon yn yr arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn canolbwyntio ar y rhannau o'r ysbyty a ddefnyddid ar gyfer achosion pediatrig ar y diwrnod, ynghyd â theatr rhif dau. Adolygwyd gwybodaeth a ddiweddarwyd ers yr arolygiad llawn diwethaf ar 13 Mawrth 2014 hefyd.

Yr unig ystafelloedd gwely a arolygwyd oedd rhai ar adain ddwyreiniol yr ail lawr, lle roedd un o'r ystafelloedd gwely wedi cael ei haddasu dros dro yn lolfa / ardal

chwarae ddymunol i'r plant, lle roedd amrywiaeth o deganau ar gael. Roedd mewnosodiadau diogelwch wedi cael eu rhoi yn yr holl socedi trydan.

Roedd y prif goridorau wedi cael eu hailaddurno mewn lliwiau goleuach a bwriedid gwneud yr un peth gyda'r ystafelloedd gwely. Yn y cyfamser, ac yn enwedig yn yr ystafell wely a welwyd, dylid rhoi llyfiad o baent i'r rhannau o fframiau'r drysau oedd wedi'u difrodi er mwyn cynnal wyneb hylan y gellir ei sychu.

Arolygwyd theatr rhif dau ar ôl i'r rhestrau o lawdriniaethau gael eu cwblhau. Hysbyswyd AGIC fod y theatr arbennig hon am gael ei hailaddurno yn nhrydydd chwarter y flwyddyn hon (2014). Fodd bynnag, mae angen ystyried gosod gorchudd llawr newydd yn lle'r un clytiog presennol cyn hynny. Nodwyd fod rhai o weldiadau'r llawr yn ymwithio trwy'r wyneb, gan ffurfio gwrym lle roedd gweddillion baw yn ymgasglu.

Roedd adlynon wedi cronni ar baneli'r canopi llif laminaidd; roeddent wedi'u gadael ar ôl wedi i orchuddion a osodwyd â thâp gael eu tynnu. Byddai angen canfod dull addas o ddileu'r croniadau hyn.

Roedd angen sylw i'r drysau i'r ystafell baratoi ac i'r ystafell golchi pethau budron gan drwsio'r wynebau laminedig oedd wedi'u difrodi. Roedd y goleuadau yn yr ardal sgwrio yn wael, gyda llawer o'r tiwbiau golau heb fod yn gweithio. Mae angen glanhau croniadau o ddefnydd wedi cyrydu o gwmpas pigau'r tapiau cymysgu. Hefyd, roedd un tap yn diferu'n barhaus ac roedd angen rhoi sylw i hwn.

Roedd lefel y goleuadau ym mhrif goridor y theatr wedi gwella'n fawr iawn gan fod ffitiau LED newydd wedi cael eu gosod yno. Gan hynny, roedd angen llai o ffitiadau ac roedd paneli mewnlennad yn cael eu darparu lle roedd ffitiadau wedi cael eu tynnu. Nodwyd bod ffitiadau yn awr mewn stoc er mwyn mynd ymlaen i'r ardal adfer.

Roedd angen sylw i ran o'r llawr yn yr ystafell newid i fenywod. Roedd yn ymddangos bod peipen wedi cael ei thynnu yn ystod y gwaith uwchraddio a bod y twll wedi'i lenwi cyn gosod y gorchudd ar y llawr ac mai'r defnydd llenwi hwn oedd yn dadfeilio gan adael pant meddal yng ngorchudd y llawr. Hysbyswyd AGIC fod y contractwr yn ymwybodol o'r broblem ond heb lwyddo i'w datrys.

Roedd pob un o'r pedwar gofyniad o ran cyfleusterau oedd yn sefyll ers yr arolygiad diwethaf wedi cael eu cwblhau ac mae cofnodion cynnal gwasanaethau yn cael eu dogfennu'n dda. Roedd archwiliad blynyddol o chwarter y gwifrau ar y gweill a gobeithid y byddai'n cael ei gwblhau yn fuan.

Trywydd Gofal Iechyd Plant a Theuluoedd

Cefndir

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Cynhaliwyd yr adolygiad o drywydd gofal iechyd plant a theuluoedd yn Ysbyty Spire Caerdydd gan adolygwr sy'n arbenigo mewn gwasanaethau plant gydag AGIC. Mae'r ysbyty yn darparu gwasanaethau llawfeddygol i blant a phobl ifanc rhwng tair a deunaw mlwydd oed.

Roedd gan yr ysbyty bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ac mae staff meddygol, llawfeddygol a nyrsio sydd â chymwysterau a phrofiad addas yn darparu'r gofal. Mae llawdriniaethau plant yn digwydd mewn sesiynau theatr sy'n cael eu neilltuo ar gyfer plant ac roedd rhestr llawfeddygol plant wedi'i threfnu yn theatr dau ar gyfer diwrnod yr adolygiad sef dydd Sadwrn, 19 Gorffennaf 2014.

Ansawdd Gofal Cleifion a'u Teuluoedd

Aseswyd ansawdd gofal cleifion a'u teuluoedd trwy arsylwi'n uniongyrchol ar bum plentyn ar y rhestr ar gyfer llawdriniaeth ac ar y rhestr theatr a ddynodwyd i blant yn unig.

Dechreuodd trywydd gofal iechyd y plentyn ar y ward gydag eglurhad gan y Nyrs Bediatrig Arweiniol a pharatoadau ar gyfer llawdriniaeth. Dilynir hyn gan y broses o roi anaestetig yn ystafell anaestetig y theatr, y llawdriniaeth yn y theatr, cam cyntaf yr adferiad yn y theatr ac wedyn arsylwi parhaus a'r broses adfer wrth ddychwelyd i'r ward. Holwyd plant, teuluoedd a'r staff sy'n gofalu amdanynt wrth i'r plentyn ddilyn y trywydd gofal iechyd a darparodd staff sydd â chymwysterau a phrofiad priodol safon uchel o ofal clinigol ac o ofal emosiynol oedd yn canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu.

Lleolir myfyrwyr yn yr ysbyty a darparodd y myfyriwr oedd ar ddyletswydd ar ddiwrnod y rhestr theatr ar gyfer plant ofal priodol dan oruchwyliaeth y staff cymwys. Mae cyfathrebu a rhyngweithio'r staff â phlant yn dda gan roi gofal ychwanegol i blant neu rieni nerfus.

Dangoswyd ymarfer eithriadol yn yr ystafell anaestetig cyn y broses anaestetigo lle roedd plentyn yn nerfus ac yn ystod y broses honno; roedd y cyfathrebu'n effeithiol, yn addas i oed y plentyn ac yn tawelu'r plentyn a'i riant. Roedd yr arfer hwn yn rhagorol ac rydym yn ei gymeradwyo yn fawr.

Gwelwyd prosesau rhyddhau da ac mae plant yn derbyn galwad ffôn ddilynol ar y bore dydd Llun ar ôl eu llawdriniaeth y dydd Sadwrn blaenorol. Diben yr alwad yw gwirio cynnydd y plentyn ar ôl y llawdriniaeth a boddhad y plentyn a'r teulu gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Nododd AGIC fod yr alwad hon yn cael ei gwneud gan staff gweinyddol neu glerigol ac mai'r arfer gorau fyddai cael aelod o'r staff clinigol i wneud yr alwad. Byddai hyn yn golygu y gellid rhoi cyngor ac arweiniad priodol ar unwaith petai unrhyw broblemau yn dod i'r amlwg. Gallai leihau'r angen a'r amser i'r teulu dderbyn galwad

yn ôl gan glinigwr i ddelio ag unrhyw broblem sy'n cael ei chodi yn ystod yr alwad gyntaf. Hysbyswyd AGIC fod nyrs ar gael i gysylltu â'r claf pan fo angen.

Argymhelliad Arfer Da

Rydym yn argymhell y dylai Ysbyty Spire Caerdydd ystyried cael aelod o'r staff clinigol ac nid y staff clerigol i wneud galwadau ffôn dilynol i wirio cynnydd ar ôl llawdriniaeth a boddhad y plentyn a'r teulu gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Urddas a Phreifatrwydd

Cynhaliwyd urddas a phreifatrwydd y plant a'u teuluoedd drwy'r amser gan roi sylw amlwg i amddiffyn gwyleidd-dra'r plant wrth newid i gynau'r theatr.

Cyfrinachedd Cleifion

Gwelwyd polisiau perthnasol ar gyfrinachedd cleifion a dangosodd y staff eu bod yn cadw cyfrinachedd cleifion yn ystod yr adolygiad.

Cofnodion Iechyd

Roedd y sampl o gofnodion iechyd a adolygwyd yn cael eu cadw yn gywir a defnyddid dogfennaeth sy'n addas ar gyfer oedran y cleifion, yn enwedig ar gyfer cofnodi sgoriau rhybudd cynnar i nodi posibilrwydd y bydd claf yn gwaethygu. Mae hyn yn arfer da sy'n cael ei argymhell.

Rheoli Risg

Ceir gweithdrefnau rheoli risg yn enwedig o ran asesu risgiau i ddiogelwch plant sy'n mynychu'r ysbyty. Cynhelir asesiadau risg o ran addasrwydd yr amgylchedd a gosodir rheolaethau i leihau risg. Caiff diogelwch clinigol plant ei fonitro trwy gofnodi arwyddion bywyd cyn ac ar ôl llawdriniaeth ar siartiau sgorio rhybuddion cynnar priodol.

Mae trefniadau trosglwyddo clinigol cynhwysfawr o ran y driniaeth, y gofal a roddir a'r gofal dilynol sydd ei angen, yn tynnu sylw at unrhyw risgiau posibl a beth sydd i'w wneud i reoli'r risg. Mae'r staff yn derbyn addysg reolaidd ar Gefnogi Bywyd Pediatrig trwy hyfforddiant seiliedig ar senarios a chysiau ffurfiol. Ceir gweithdrefn i ddarparu gofal dibyniaeth fawr ac i drosglwyddo plentyn i Uned Gofal Dwys Pediatrig os oes angen. Gwelwyd polisiau priodol ar ddadebru ac offer dadebru.

Mae'r Nyrs Bediatrig Arweiniol yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o amddiffyn plant a bod gweithdrefnau amddiffyn plant yn bodoli. Mae'r ysbyty yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r agwedd hon ar ofal.

Yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau

Mae amgylchedd y gofal yn rhagorol o ran yr ystod o ddillad gwely sydd ar gael sy'n briodol i oedran y cleifion a'r amrywiol bethau a ddarperir ar gyfer chwarae a denu sylw'r cleifion. Gall plant iau deithio i'r theatr mewn car tegan a yrrir gan fatriau ac roedd un plentyn wrth ei fodd yn 'gyrru i'r theatr'.

Mae'r cyfleusterau cyffredinol yn dda ond gellid gwella'r addurniadau yn yr ystafelloedd yn y ward, er enghraifft trwy ddangos gwaith celf mwy diddorol mewn lliwiau mwy llachar ar y waliau. Gall yr ystafelloedd fynd yn boeth iawn a chynigir ffannau i helpu'r cleifion a'r rhieni i gadw'n gyfforddus.

Gwelir arwyddion cyffredinol o draul a gwisgo yn theatr dau ac mae angen ei chynnal a'i chadw gan fod peth o'r paent wedi dod i ffwrdd oddi ar y waliau a'r drysau rhwng y theatr a'r ystafelloedd atodol. Mae staenau drwg ar y llawr dan y bwrdd llawdriniaeth ac mae marciau gweddillion glud ar rannau helaeth o'r canopi canolog uwchben yr ardal llawdriniaeth. Nododd y staff eu bod wedi rhoi cynnig ar nifer o bethau er mwyn ceisio dileu'r glud ond na fuont yn effeithiol. Bydd y staff yn ceisio cyngor proffesiynol ar sut i ddelio â'r mater hwn.

Sylwodd yr adolygydd fod gwifrau estyniad yn ymlwybro ar draws y llawr ac y gallai'r rhain achosi i staff y theatr faglu a chwmpo. Bydd y staff yn asesu risg y perygl hwn ac yn awgrymu ateb yn y rhestr o dasgau ar gyfer adnewyddu theatr dau sydd i'w gwneud yn nhrydydd chwarter 2014.

Gwelwyd pant yn llawr yr ystafell newid i fenywod a chredir bod hyn wedi'i achosi am fod defnydd y llawr wedi rhoi, ar ôl dileu peipen nad oedd ei hangen mwyach. Mae staff cynnal a chadw yn rhoi sylw i'r mater hwn.

Sylwodd yr adolygydd fod nifer o eitemau yn llychlyd yn yr ardal adfer ar ôl llawdriniaeth, sef tyllwr a styffylwr a silffoedd isaf tair troli trosglwyddo cleifion. Argymhellodd yr adolygydd y dylid eu glanhau ar unwaith ac y dylid ychwanegu'r eitemau hyn at restr y pethau sy'n cael eu glanhau yn y theatr.

Nodwyd bod pennawd 'BUPA' ac nid Ysbyty Spire Caerdydd ar restr y pethau i'w glanhau yn y theatr ac argymhellodd yr adolygydd y dylid diweddarau'r gwaith papur.

Arweiniad Clinigol a'r Tîm Amlddisgyblaethol

Nodwyd bod arweinyddiaeth glir ac effeithiol yn cael ei rhoi gan y timau meddygol a nyrsio clinigol ac fe welwyd bod y timau clerigol yn cyfathrebu'n effeithiol a chwrtais â phob un o'r timau.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Mae'r cyfathrebu â phlant a theuluoedd yn rhagorol ac mae ystod o wybodaeth berthnasol ar gael am wasanaethau a ddarperir gan yr ysbyty. Gellir gwella'r wybodaeth am y gweithdrefnau i blant trwy ddarparu gwybodaeth sy'n addas i'w hoed mewn amrywiol fformatau.

Polisiau Clinigol, Trefniadol a Phersonél

Ceir amrywiaeth o bolisiau perthnasol.

Rheoli Meddyginiaethau

Gweinyddir meddyginiaethau ar gyfer y theatr yn unol â'r arferion gorau ac roedd meddyginiaethau o fewn eu dyddiadau ac yn cael eu storio'n briodol.

Crynodeb o Drafodaethau â Phlant a'u Teuluoedd

Roedd y plant a'r teuluoedd y siaradwyd â hwy yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir. Nododd yr holl rieni fod y gofal a'r driniaeth ar gyfer eu plentyn yn cwrdd â'u disgwyliadau neu'n rhagori arnynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni eu bod yn arbennig o fodlon gyda pha mor gyflym y trefnwyd apwyntiadau ac ymgynghoriadau a'r ffordd yr oedd amserlen y llawdriniaeth wedi cael ei threfnu.

Roedd y gofal a'r cyfarwyddiadau cyn ac ar ôl llawdriniaeth yn glir ac roedd yr holl rieni yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y Nyrs Bediatrig Arweiniol a'r tîm llawfeddygol.

Crynodeb o Drafodaethau â'r Staff

Roedd yn ymddangos bod y timau nyrsio, meddygol, rheoli a chlerigol yn glir ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ac yn fodlon gyda'r rhain. Roedd gan staff y theatr gymwysterau a phrofiad priodol; roedd rhai yn aelodau o staff ysbyty ers nifer o flynyddoedd ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel staff craidd, sefydlog.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus a chynlluniau datblygu personol. Nododd staff adfer y theatr fod yr hyfforddiant dadebru ar sail scenarios ac e-ddysgu yn ffordd effeithiol iawn o gadw eu gwybodaeth yn gyfredol.

Nododd y myfyriwr nyrsio y bu'r lleoliad yn Ysbyty Spire Caerdydd yn brofiad gwerthfawr ac yn gyfle i ennill llawer o wybodaeth. Byddai'n ei argymhell i fyfyrwr eraill.

Crynodeb o'r Arolygon Boddhad

Roedd lefel y boddhad yn uchel yn yr arolwg boddhad a welwyd.

Crynodeb o'r Cwynion

Ni welwyd crynodeb o gwynion.

Rhoddwyd adborth ar lafar trwy gydol yr arolygiad ac ar y diwedd.

Gofynion newydd yn sgil yr arolygiad hwn

Gweithredoedd sydd eu hangen	Rheoliad
Trwsio paent diffygiol yn ystafelloedd gwely yn y wardiau	Rheoliad 26(2)(b)
Cyn ailaddurno theatr dau, gwneud y gwaith trwsio a/neu gael pethau newydd, yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad hwn	Rheoliad 26(2)(b)
Rhoi sylw i'r gorchudd llawr diffygiol yn yr ystafell newid i fenywod	Rheoliad 26 (2)(b)
Anfon ymlaen gopi o'r dystysgrif gwifrau trydan pan gaiff ei derbyn	Rheoliad 26 (2)(a)

Argymhellion arfer da:

- Argymhellir y dylid darparu hyfforddiant mewn rheoli meddyginiaethau yn flynyddol i bob aelod o staff sydd â rhan mewn rheoli meddyginiaethau
- Mae angen llofnod ar gofnodion cleifion gan bob aelod o staff sydd â rhan mewn trosglwyddo gofal rhwng adrannau
- Gellid gwella'r wybodaeth am y gweithdrefnau a wneir ar gyfer plant trwy ddarparu gwybodaeth sy'n addas i'w hoed mewn amrywiol fformatau

Hoffai AGIC ddiolch i'r holl staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Croeso i chi gysylltu â mi os bydd arnoch eisiau trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir iawn



Phil Price
Rheolwr yr Adolygiad

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk